# Newid darparwr yn gyflym, yn hwylus ac yn ddibynadwy

## Datganiad ar newidiadau i'r Amodau Cyffredinol

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 3 Chwefror 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg **Error! Bookmark not defined.**

# 1. Trosolwg

Dylai pobl fedru newid darparwr telathrebu'n hwylus, er mwyn manteisio ar yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Mae newid mwy hwylus yn galluogi i bobl siopa'n hyderus am y pris a'r gwasanaeth gorau ar gyfer eu hanghenion. Gall anawsterau yn y broses newid olygu nad yw pobl am symud rhwng darparwyr. Mae newid yn effeithiol yn bwysig er mwyn cefnogi buddsoddiad cystadleuol mewn band eang cyflymach a mwy dibynadwy, a'r defnydd ohono.

Ym mis Medi 2021, gwnaethom gadarnhau ein penderfyniadau i fynnu bod darparwyr yn datblygu ac yn gweithredu proses 'Newid Un Cam' newydd ar gyfer yr holl gwsmeriaid preswyl sy'n newid eu gwasanaethau llinell dir a band eang ac i gael gwared o'r broses Hysbysiad o Drosglwyddo bresennol,[1] a gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i'n Hamodau Cyffredinol yr oedd eu hangen i weithredu'r penderfyniadau hyn. Cynigiwyd rhai newidiadau cyfyngedig i'r wybodaeth y mae'n rhaid i ddarparwyr symudol ei rhoi i gwsmeriaid preswyl pan fyddant eisiau newid hefyd.

### Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

**Newid llinell dir a band eang yn fwy hwylus**

Rydym yn gwneud newidiadau i'n rheolau i weithredu ein penderfyniad y gall yr holl gwsmeriaid preswyl ddefnyddio proses sengl (Newid Un Cam) i symud rhwng darparwyr, ni waeth pwy yw eu darparwr neu ba dechnoleg y mae eu darparwr yn ei defnyddio. Bydd y broses newydd hon yn disodli'r trefniadau presennol o 3 Ebrill 2023.

**Diddymu'r broses Hysbysiad i Drosglwyddo**

Rydym yn diddymu'r rheolau presennol o ran Hysbysiad i Drosglwyddo, er mwyn gweithredu ein penderfyniad i ddileu'r broses newid hon. Bydd cwsmeriaid preswyl y maent yn defnyddio Hysbysiad i Drosglwyddo ar hyn o bryd yn defnyddio Newid Un Cam pan gaiff ei lansio.

**Gwell gwybodaeth i newidwyr symudol**

Rydym yn gwneud newidiadau i'n rheolau i weithredu ein penderfyniad y bydd cwsmeriaid symudol sy'n defnyddio'r broses Newid Awtomatig yn derbyn gwybodaeth ychwanegol pan fyddant yn newid. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau wedi'u bwndelu a gwasanaethau penodol i gwsmeriaid anabl.

Bydd y newidiadau uchod i'r AC yn dod i rym ar 3 Ebrill 2023.

Yn y ddogfen hon, rydym yn disgrifio'r ymatebion a dderbyniwyd gennym i'n cynigion a'r newidiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein hysbysiad terfynol o'r newidiadau rydym yn eu gwneud i'n Hamodau Cyffredinol.

## Y camau nesaf

Mae'r diwydiant eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ddylunio manylion y broses Newid Un Cam cyn y terfyn amser ar gyfer gweithredu Bydd y newidiadau i'r AC yn dod i rym ar 3 Ebrill 2023.

[1] Mae rhai cwsmeriaid sy'n newid gwasanaethau llinell dir a band eang yn defnyddio'r broses hon ar hyn o bryd i symud rhwng darparwyr ar rwydweithiau Openreach a KCOM.